



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeilad y Goron Crown Buildings Ffôn/Tel: 0303 444 5940
Parc Cathays Cathays Park
Caerdydd Cardiff e-bost/e-mail: dns.wales@planninginspectorate.gov.uk
CF10 3NQ CF10 3NQ

Sarah Burley (Asiant yr Ymgeisydd) Ein Cyf / Our Ref: DNS/3214813

Cyngor Sir Powys Dyddiad / Date: 12th July 2021

Cyfoeth Naturiol Cymru
Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Castell Powis
Adran yr Economi a'r Seilwaith Llywodraeth
Cymru (Awdurdod Cefnffyrdd)

(Anfonwyd trwy e-bost)

Annwyl Syr/Fadam,

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016

Cais gan: ALISTAIR HILDITCH-BROWN (BROAD ENERGY (WALES) LTD)
Safle: CHWREL TAL-Y-BONT, TAL-Y-BONT, Y TRALLWNG, SY12 8SZ

Mae'r Arolygydd a benodwyd, sef A McCooey BA (Anrh) MSc MRTPI, wedi gofyn i mi gysylltu â chi ynglŷn â'r cais Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) uchod. Mae'r cyfathrebiad hwn yn hysbysiad swyddogol o faterion pwysig yn ymwneud â'r cais DNS. Darllenwch y canlynol a chysylltwch â ni os oes unrhyw beth yn aneglur.

1. Hysbysiad o dan adran 319B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ynglŷn â'r weithdrefn a ddilynir wrth gynnal yr archwiliad hwn

Mae'r Arolygydd bellach wedi adolygu'r holl sylwadau a wnaed yn briodol ac, ar ôl ystyried yn ofalus, wedi penderfynu bod angen sesiynau gwrandawriad i drafod sawl agwedd ar y cyflwyniad. Felly, mae'r llythyr hwn yn hysbysiad ffurfiol o dan Adran 319B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ynglŷn â'r weithdrefn a ddilynir wrth gynnal yr archwiliad. Mae Atodiad A yn amlygu'r pynciau i'w trafod yn y sesiynau gwrandawriad ac yn cynnwys rhestr o'r partion a fydd yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i gymryd rhan yn y cyfryw ddiwyddiadau. Gwahoddir yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gymryd rhan yn y gwrandawriadau; byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Arolygydd petaent yn gwneud hynny. Bydd manylion llawn y pynciau a'r gwrandawriadau, gan gynnwys union nifer y sesiynau, dyddiadau ac amserau pob sesiwn a phwy a wahoddir i gymryd rhan ym mhob sesiwn, yn cael eu cadarnhau o leiaf 4 wythnos cyn y digwyddiad. Disgwylir ar hyn o bryd y bydd 4 sesiwn Gwrandawriad, fel y manylir yn Atodiad A. Bwriedir iddynt gael eu cynnal ar 13, 15, 17 ac 20 Medi 2021. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y sesiynau gwrandawriad yn agosach at yr amser. Os ydych yn fodlon mynychu,

gofynnir i chi wneud pob ymdrech i sicrhau bod y bobl berthnasol o'ch sefydliad ar gael ar gyfer unrhyw sesiynau gwrandawriad y cewch wahoddiad iddynt.

Bydd nodyn sy'n amlinellu'r materion i'w trafod yn fanylach yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y rhai hynny a fydd yn cymryd rhan mewn gwrandawriad yn cael gwahoddiad ffurfiol i gyflwyno datganiad gwrandawriad i ymateb i faterion a amlygwyd gan yr Arolygydd a benodwyd, os hoffent wneud hynny. Bydd y cyfryw wahoddiadau'n cael eu hanfon yr un pryd â'r cadarnhad llawn o fanylion y gwrandawriad. **Ni chaiff datganiadau gwrandawriad gynnwys mwy na 3000 o eiriau ac mae'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth bythefnos cyn y sesiwn wrandawriad berthnasol.** Gallai unrhyw ddatganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus gael eu dychwelyd. Dylai unrhyw dystiolaeth dechnegol gael ei chyfyngu i atodiadau, ac fe ddylai fod â chysylltiad clir â'r achos. Os bydd unrhyw barti'n penderfynu nad oes angen cyflwyno datganiad, a'i fod am ddibynnu ar wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol, dylai gadarnhau hyn yn ysgrifenedig cyn y sesiwn wrandawriad berthnasol. Bydd yr holl gyflwyniadau ysgrifenedig yn cael eu cyhoeddi ar y wefan Porth DNS: <https://dns.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/Wales/Buttington-Quarry---ERF/>

Yn ogystal ag unrhyw ddatganiadau gwrandawriad unochrog gan barti'n sy'n cymryd rhan, mae'r Arolygydd yn annog yr Ymgeisydd a pharti'n statudol perthnasol i barhau i drafod â'i gilydd, gyda'r nod o ddatrys neu leihau materion sy'n weddill, lle y bo'n bosibl. Bydd datganiadau tir cyffredin, sy'n rhoi amlinelliad cryno o'r materion y mae'r parti'n yn cytuno arnynt ac sy'n crisialu unrhyw wahaniaethau sy'n weddill, o gymorth mawr wrth helpu'r sesiynau gwrandawriad dilynol i ganolbwyntio ar y materion allweddol sy'n destun dadl. Dylai'r rhain gael eu darparu pythefnos cyn y sesiwn wrandawriad berthnasol hefyd.

Bydd yr holl sesiynau gwrandawriad yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a chaiff unrhyw unigolyn arall arsylwi'r trafodion. Os bydd unrhyw un na wahoddyd i gyfranogi yn dymuno cymryd rhan mewn gwrandawriad, caiff ofyn i'r Arolygydd ganiadau iddo wneud hynny. Mae'r Rheoliadau DNS yn egluro bod hyn yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd a benodwyd yn unig. Bwriedir i unrhyw faterion nad ydynt wedi'u hamlygu yn Atodiad A y llythyr hwn gael eu hystyried gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

Ar ôl cynnal y gwrandawriadau, bydd yr Arolygydd yn penderfynu a yw'n dymuno cynnal ymweliad safle gyda chwmni yn ogystal â'r ymweliadau digwmni y mae'n bwriadu eu cynnal. Ni fydd cyfle i wneud sylwadau i'r Arolygydd yn ystod unrhyw ymweliad safle gyda chwmni, os caiff ei drefnu.

2. Cais ffurfiol am wybodaeth ychwanegol o dan Reoliad 15(2) Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd).

Gofynnir am y wybodaeth hon at ddibenion y gwrandawriadau sydd i'w cynnal ynglŷn â'r cais hwn, ac mae'n rhaid ei chyflwyno **erbyn 3 Awst 2021 fan bellaf.**

Gan yr ymgeisydd, sef Broad Energy (Wales) Limited

1. Ymateb i'r gwrthwynebiad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (REP003) ynglŷn ag effaith y cynnig ar y parc a'r ardd hanesyddol cofrestredig (RHPG) a'r adeiladau rhestredig yng Nghastell Powis (gweler hefyd sylwadau Cadw). Dylai'r ymgeisydd groesgyfeirio at y dadansoddiad o'r effaith o Olygfan 24 yn yr Asesiad o'r Effaith Dirweddol a Gweledol (LVIA) ac ystyried a ddylai golygfannau a gwybodaeth ychwanegol gael eu cyflenwi, fel yr awgrymwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu 2021-26 a'i Datganiad Llesiant yn ddiweddar (sydd ar gael ar Llyw.Cymru). Mae'r Datganiad Llesiant yn amlinellu amcanion llesiant diweddaraf Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â'r nodau llesiant sy'n deillio o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae'r Rhaglen Lywodraethu'n gosod cyfres o gamau gweithredu ar gyfer bodloni'r amcanion. Y pumed amcan llesiant yw *Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn*. Mae ymrwymadau'r cam gweithredu cysylltiedig yn dangos ymdrech i leihau ac osgoi gwastraff, gan gynnwys deddfwriaeth i roi terfyn ar ddefnyddio cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gadael fel sbwriel yn gyffredin, a chyflwyno cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwr estynedig i annog busnesau i leihau gwastraff. Gwahoddir yr ymgeisydd i wneud sylwadau ar gysondeb y cynnig â'r amcanion/ymrwymadau hyn a'r cyfeiriad maen nhw'n eu dangos.
3. Unrhyw ymateb yr hoffai'r ymgeisydd ei wneud i'r Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) gan Gyngor Sir Powys. Er gwybodaeth, mae'r Arolygydd eisiau trafod y materion canlynol yn y sesiynau Gwrandawriad: yr angen rhanbarthol am Gyfleuster Adfer Ynni (ERF) [5.1-5.11]¹, Effaith Dirweddol a Gweledol (LVIA) y cynnig a'r asesiad o arwyddocâd [5.39-5.51], effeithiau ar eiddo cyfagos o ganlyniad i sŵn [5.100-5.109], materion geotechnegol gan gynnwys sefydlogrwydd llethr [5.110-5.116] a'r posibilrwydd o aildefnyddio deunyddiau o fewn y safle ac fel agregau eilaidd [5.10, 5.115, 5.118]. Gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn y Datganiadau Gwrandawriad.
4. Unrhyw ymateb yr hoffai'r ymgeisydd ei wneud i'r gwrthwynebiadau a wnaed gan Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont (BIIG) (a gwrthwynebwyr eraill). Mae'r materion a godwyd yn cynnwys materion a fydd yn derbyn sylw yn y Gwrandawriadau, a'r canlynol: materion cynaliadwyedd (gan gynnwys cynhyrchu carbon o ganlyniad i losgi), ystyriaeth yr ymgeisydd o safleoedd amgen ar gyfer ERF, effaith yr ERF ar ansawdd aer yn enwedig materion posibl yn ymwneud â gwrthdroi tymheredd, effeithiau ar iechyd pobl, materion diogelwch ar y priffyrdd, yr effaith ar yr economi leol, yr effeithiau niweidiol ar dreftadaeth ddiwylliannol leol a sylwadau BIIG ar y datganiad cynllunio gwastraff.

Nid oes angen mynd i'r afael â materion a fydd yn cael eu trafod yn y gwrandawriadau nac ailadrodd tystiolaeth a roddwyd eisoes. Bydd cyfeiriad at y ddogfen a lleoliad yr ymateb cynharach y dibynnir arni yn ddiagonol.

Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am gyfle i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag Asesiad Strategol Llywodraeth Cymru. Ceir cyflwyno'r wybodaeth hon wrth ymateb i bwyntiau 3 a 4 uchod neu fel Datganiad Gwrandawriad ar gyfer Gwrandawriad 1 (gweler Atodiad A).

Gan Gyngor Sir Powys

Copiau llawn o holl bolisiau (ynghyd â thestun esboniadol cysylltiedig) Cynllun Datblygu Lleol Powys a restrir ym mharagraff 4.1 yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a'r rhannau perthnasol o'r dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol a restrir ym mharagraff 4.2, ynghyd â chopiau o dudalennau teitl y dogfennau sy'n dangos y teitl llawn a'r dyddiad mabwysiadu neu gymeradwyo.

Gan Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (yr A458 a'r A483 yn yr achos hwn)

Mae'r Arolygydd yn nodi bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad (REP001) yn datgan yn unig nad yw Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd, yn rhoi cyfarwyddyd

¹ Y rhifau paragraff perthnasol yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR)

mewn perthynas â'r cais hwn. Nid yw Cyngor Sir Powys yn gwneud sylwadau yn ei adroddiad ar yr effaith leol oherwydd Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd. Yn yr amgylchiadau hyn, mae angen i'r Arolygydd gael ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, fel yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Aseiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth a gwybodaeth arall ynghlwm wrth Bennod 8 y datganiad amgylcheddol a gyflwynwyd. Mae llawer o wrthwynebwyr yn cyfeirio at annigonolrwydd yr A458 i ymdopi â thraffig cerbydau nwyddau trwm (HGV) ychwanegol oherwydd lled ac aliniad y ffordd a phontydd yng nghyffiniau'r safle. Fe allech ddymuno ystyried ymateb i'r materion a godwyd. Er enghraifft, mae'r gynrychiolaeth gan Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont (OBJ003) yn cynnwys sylwadau preswylwyr ar Bennod 8 y datganiad amgylcheddol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ohebiaeth hon, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'n tîm.

Yn gywir

N Kinsey

NINA KINSEY

Case Officer

Swyddog Achos

(Atodiad A wedi'i atodi isod)

Atodiad A: Sesiynau gwrandawriad ar sail pwnc a chyfranogwyr perthnasol

Sylwer: Bwriedir cynnal y gwrandawiadau rhwng 13 ac 20 Medi. Gallai manylion ychwanegol ynglŷn ag agweddau ar y pynciau sydd i'w trafod gael eu darparu'n agosach at ddyddiad y digwyddiad.

Gwrandawriad 1: Ystyriaethau Strategol/Polisi:

- Y Polisi Gwastraff Cenedlaethol ac Aseiad Strategol Llywodraeth Cymru
- Yr angen am y cynnig a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd
- Ystyriaethau cynaliadwyedd, gan gynnwys deunydd sydd i'w symud ymaith o'r safle

Cyfranogwyr Gwrandawriad 1

Yn unol â rheoliad 24, gwahoddir y canlynol i gymryd rhan:

Broad Energy (Wales) Limited

Cyngor Sir Powys

Cyfoeth Naturiol Cymru

Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont

Gwrandawriad 2: Effeithiau ar leoliadau derbynyddion dynol sensitif (camau adeiladu a gweithredu):

- Ansawdd aer ac iechyd pobl
- Arogleuon
- Sŵn (gan gynnwys sŵn traffig)
- Materion geotechnegol

Cyfranogwyr Gwrandawriad 2

Yn unol â rheoliad 24, gwahoddir y canlynol i gymryd rhan:

Broad Energy (Wales) Limited

Cyngor Sir Powys

Cyfoeth Naturiol Cymru

Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont

Gwrandawriad 3: Effeithiau Tirweddol a Gweledol/ Materion Ecolegol

- LVIA – aseiad o arwyddocâd a maint yr effaith
- Yr effaith ar Gastell Powis, gan gynnwys lleoliad asedau treftadaeth
- Egluro risg llygredd aer i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Moel-y-Golfa

Cyfranogwyr Gwrandawriad 3

Yn unol â rheoliad 24, gwahoddir y canlynol i gymryd rhan:

Broad Energy (Wales) Limited

Cyngor Sir Powys

Cyfoeth Naturiol Cymru

Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Gwrandawriad 4: Amodau, Rhwymedigaethau Cynllunio, Dulliau Rheoleiddio:

- Amodau argymelledig y cytunwyd arnynt gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol (CEMP).
- Rhwymedigaethau Cynllunio (os cynigir unrhyw rai)
- Bodolaeth a chwmpas rheolaethau Rheoleiddio eraill

Cyfranogwyr Gwrandawriad 4

Yn unol â rheoliad 24, gwahoddir y canlynol i gymryd rhan:

Broad Energy (Wales) Limited

Cyngor Sir Powys

Cyfoeth Naturiol Cymru

Grŵp Effaith Llosgydd Tal-y-bont